# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Sefydliad Ceiropracteg Cymru

Dyddiad arolygu: 29 Hydref 2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-83933-920-2

© Hawlfraint y Goron 2020

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ... 8

   Ansawdd profiad y claf ... 10

   Darparu gofal diogel ac effeithiol ... 14

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ... 19

4. Beth nesaf? ... 23

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ... 24

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ... 25

   Atodiad B – Cynllun gwella ... 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Sefydliad Ceiropracteg Cymru ar 29 Hydref 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd glân a chroesawgar.

Roedd cofnodion cleifion yn gynhwysfawr.

Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol; roedd hyn yn sicrhau nad oedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu peryglu.

Rydym wedi gwneud rhai argymhellion ynghylch yr angen i ddarparu hyfforddiant pellach a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd[1].

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol
- Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol
- Roedd systemau ar gael i gasglu adborth gan y cleifion
- Roedd trefniadau diogelwch cadarn ar waith
- Darparwyd gofal a thriniaeth i'r cleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Roedd y clinig yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr
- Roedd pob cofnod wedi'i storio'n ddiogel ac wedi'i ddiogelu â

[1] https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

chyfrinair

- Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel
- Roedd y staff yn teimlo bod yr uwch-reolwyr yn eu cefnogi
- Roedd y staff yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a/neu bryderon.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cynnig hebryngwr i bob claf
- Rhaglen ehangach o weithgarwch archwilio wedi'i ddogfennu.

Gwnaethom nodi rhai mân achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn, yn ymwneud â hyfforddiant staff a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Sefydliad Ceiropracteg Cymru (y Sefydliad) wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth annibynnol ym Mharc Busnes Dr William Price, Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL.

Mae'r gwasanaeth, sy'n glinig cleifion allanol o fewn Prifysgol De Cymru, yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau diagnostig, asesu a thriniaeth preifat. Adeiladwyd y clinig yn bwrpasol yn 2000 er mwyn i'r myfyrwyr blwyddyn olaf a oedd yn astudio am radd Meistr Ceiropracteg (MChiro) ymgymryd â'u hyfforddiant clinigol. Mae'r Sefydliad wedi datblygu gwasanaethau diagnostig a therapiwtig ychwanegol a ddarperir yn y clinig cleifion allanol.

Mae'r Sefydliad yn glinig addysgu, felly mae pob un o'r clinigwyr yn Glinigwyr dan Hyfforddiant. Byddant wedi cwblhau tair blynedd o astudio a hyfforddiant yn llwyddiannus cyn iddynt ddechrau ar eu blwyddyn olaf o hyfforddiant clinigol yn y clinig cleifion allanol. Maent yn gweithio o dan oruchwyliaeth Ceiropractyddion cymwysedig, y mae pob un ohonynt wedi'u cofrestru â'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 22 Awst 2017.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys chwe aelod o staff gweinyddol, gan gynnwys rheolwr y clinig, a phum aelod o staff clinigol, gan gynnwys Meddyg ac ymarferydd Uwchsain Clinigol Diagnostig. Mae nifer o geiropractyddion a cheiropractyddion dan hyfforddiant yn gweithio yn y clinig hefyd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Uwchsain Cyhyrysgerbydol[2]
- Therapi Siocdon[3]

---

[2] Mae delweddau uwchsain o'r system gyhyrysgerbydol yn darparu lluniau o gyhyrau, tendonau, tenynnau, cymalau, nerfau a meinweoedd meddal ym mhob rhan o'r corff.

- Pigiadau dan arweiniad uwchsain[4]
- Amcangyfrif Braster y Corff dan arweiniad uwchsain[5]
- Triniaethau Ceiropracteg[6] (anghofrestredig).

---

[3] Dyfais amlddisgyblaethol yw therapi siocdon a ddefnyddir ym maes orthopedeg, ffisiotherapi, meddygaeth chwaraeon, wroleg a meddygaeth filfeddygol. Prif fuddiannau'r therapi yw'r ffaith ei fod yn gallu rhoi rhyddhad cyflym rhag poen ac adfer symudedd.

[4] Mae pigiadau dan arweiniad uwchsain yn galluogi'r ymarferydd i ddelweddu'r nodwydd mewn amser real wrth iddi fynd i mewn i'r corff a theithio i'r lleoliad dymunol. Mae hyn yn sicrhau y caiff y feddyginiaeth ei chwistrellu'n gywir yn y safle a fwriadwyd.

[5] Gellir defnyddio'r dechneg uwchsain i fesur tewdra'r braster rhwng y croen a'r cyhyr. Mae troswr yn allyrru ton uwchsain drwy'r croen, y caiff rhan ohoni ei hadlewyrchu yn y rhyngwyneb croen-cyhyr.

[6] Mae ceiropracteg yn ddisgyblaeth sy'n ymwneud â chanfod a thrin anhwylderau mecanyddol sy'n gysylltiedig â'r system gyhyrysgerbydol, yn enwedig yr asgwrn cefn.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y clinig yn cynnig gwasanaeth a oedd yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol.

Roedd systemau ar gael i gasglu adborth gan y cleifion a dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd 12 o holiaduron. Cwblhawyd yr holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis am lai na chwe mis ond heb fod yn fwy na phum mlynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol, a nododd y cleifion fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

- *Gwasanaeth ardderchog, da iawn a chymwynasgar iawn*
- *Ardderchog diolch.*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o bosteri a thaflenni yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth yn berthnasol i'r gwasanaethau a gynigir gan y clinig. Roedd y staff yn rhoi gwybodaeth benodol i gleifion unigol am eu cyflwr a'u triniaeth a gwelsom enghreifftiau o hyn yn y ffeiliau cleifion yr edrychwyd arnynt.

Roedd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu yn y dderbynfa hefyd.

### Urddas a pharch

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion nodi a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff yn Sefydliad Ceiropracteg Cymru. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnynt. Gwnaeth y cleifion hefyd ddweud wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth.

Yn ystod ein hymweliad, nodwyd bod cleifion yn cyrraedd ac yn cael eu gweld yn gyflym. Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion yn gyfeillgar ac yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais. Pe bai unrhyw glaf yn dymuno siarad â'r staff yn breifat, roedd modd defnyddio un o'r ystafelloedd ar y llawr gwaelod. Gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol, a hynny wrth sgwrsio ar y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion o'u hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd. Fodd bynnag, nid yw hebryngwyr yn cael eu cynnig yn awtomatig. Yn hytrach, y clinigydd sy'n penderfynu a oes angen hebryngwr ac, os felly, cynigir y gwasanaeth hwnnw. Er mwyn diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan fydd y claf yn cael ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, argymhellwn y dylid cynnig hebryngwyr ar ddechrau'r driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r clinig sicrhau bod hebryngwyr yn cael eu cynnig bob amser, ar ddechrau pob sesiwn lle rhoddir triniaeth, a bod hynny'n cael ei gofnodi yn y cofnodion meddygol.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu triniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau oedd ar gael, unrhyw risgiau cysylltiedig a gwybodaeth am y costau dan sylw. Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol yn yr holiaduron:

- *"Hon oedd fy nhriniaeth gyntaf yma. Roedd yn broffesiynol iawn, o ystyried ei fod hefyd yn amgylchedd dysgu"*
- *"Roedd pawb, y staff a'r myfyrwyr, yn garedig, yn gymwynasgar ac yn gwrtais iawn. Cefais driniaeth ardderchog a byddwn i'n bendant yn defnyddio'r gwasanaeth hwn eto pe bai ei angen arnaf"*

Roedd datganiad o ddiben[7] a chanllaw ar wahân i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth.

Roedd y rhestr brisiau ar gyfer triniaethau yn cael ei harddangos yn glir yn y dderbynfa ac ar wefan y clinig[8].

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddent yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig.

Yn gyffredinol, roedd y wybodaeth a gynhyrchwyd gan y clinig ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys y broses gwyno a'r siart llif cysylltiedig, canllaw i gleifion a hysbysiad prosesu teg.

Roedd dolen glywed gludadwy ar gael er mwyn helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â staff yn y clinig. Gwelsom fod arwyddion darluniadol yn cael eu harddangos er mwyn helpu cleifion i ddod o hyd i lwybr dianc addas mewn argyfwng pe bai tân.

## Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi'n glir yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth gyrraedd. Pan fydd y claf yn cyrraedd, bydd y dderbynfa yn ffonio'r clinigydd perthnasol a bydd aelod o'r staff yn casglu'r claf. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y cleifion a oedd yn y dderbynfa eu gweld yn ddi-oed.

---

[7] Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

[8] https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/welsh-institute-chiropractic-CYMRAEG/

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig, adeilad deulawr modern, wedi bod ar agor ers 2000. Roedd mannau parcio y tu allan i'r adeilad, gan gynnwys lle parcio penodol i bobl anabl a mynediad gwastad i'r adeilad. Roedd gan fynedfa'r llawr gwaelod ddrws llydan â botwm hygyrchedd fel bod modd agor y drws yn awtomatig o'r tu mewn a'r tu allan. Roedd grisiau a/neu lifft yn arwain i'r llawr cyntaf.

Roedd ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Roedd y prif gyfarpar delweddu hefyd ar y llawr gwaelod. Mae'r datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion a gwybodaeth ar wefan y clinig, yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau cleifion. Roedd Polisi Preifatrwydd ac Urddas cyfredol ar gael hefyd.

## Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gallai'r cleifion wneud sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r clinig mewn sawl ffordd, gan gynnwys pad awgrymiadau a blwch awgrymiadau yn y dderbynfa; siarad ag aelod o'r staff, cysylltu â'r staff yn uniongyrchol drwy e-bost neu eu ffonio fel y nodir ar wefan y clinig.

Roedd gan y clinig Grŵp Ymgysylltu â Chleifion[9] hefyd sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i drafod materion fel newidiadau i'r adeilad clinigol, parcio a threfniadau staffio yn y dderbynfa. Edrychwyd ar sampl o'r cofnodion a oedd yn cynnwys pwyntiau gweithredu ac a oedd yn cael eu hanfon dros e-bost at bawb a oedd yn bresennol ac yr oedd angen sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynnwys.

Mae'r clinig hefyd yn cynnal arolwg boddhad o 100 o gleifion bob blwyddyn. Roedd y sampl ar gyfer 2019 yn cynnwys 20% a gwblhaodd yr adran ar ddelweddu. Roedd y sylwadau a gafwyd o'r arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan ac mae'r clinig yn ymchwilio i un o'r awgrymiadau a wnaed ynghylch cyfleusterau newid cewynnau babanod.

[9] Fel arfer, grŵp o wirfoddolwyr o'r clinig yn cyfarfod â rheolwr y practis ac un neu fwy o'r clinigwyr. Ymhlith yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt mae'r gwasanaethau a gynigir gan y clinig, sut y gellir eu gwella a'u gwneud yn fwy hygyrch, a sicrhau bod profiad y claf cystal â phosibl.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Roedd y clinig yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr a rhoddwyd gwybodaeth benodol i gleifion ynghylch eu cyflwr/triniaeth. Roedd pob cofnod wedi'i storio'n ddiogel ac wedi'i ddiogelu â chyfrinair.

Gwnaethom argymell y dylid cyflwyno rhaglen ehangach o weithgarwch archwilio er mwyn mynd ati i adolygu a gwella gwasanaethau'n barhaus.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gallem gadarnhau bod trefniadau diogelwch cadarn a oedd yn cynnwys:

- Asesiadau rheoli sylweddau peryglus i iechyd (a elwir hefyd yn COSHH)
- Asesiadau o gyfarpar sgrin arddangos staff
- Iechyd a diogelwch cyffredinol ac ymwybyddiaeth
- Cynnal a chadw'r adeilad a'r cyfarpar
- Diogelwch tân.

Roedd gan y clinig gynllun parhad busnes a oedd yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymateb yn brydlon i argyfyngau fel colli pŵer, tân a/neu amharu ar systemau cyfrifiadurol. Roedd y cynllun parhad busnes hefyd yn ystyried yr angen i uwch-reolwyr sicrhau bod staff ychwanegol ar gael pan fydd achosion o salwch na ellir eu rhagweld a gwyliau blynyddol.

Nodwyd bod asesiadau risg ar waith i gwmpasu'r risgiau iechyd a diogelwch a aseswyd. Cynhaliwyd asesiad risg tân allanol ar gyfer y clinig yn ddiweddar hefyd.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon sylweddol gan y cleifion ynghylch glendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, yn eu barn nhw.

Roedd ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau bob dydd ac roedd gwaith glanhau trwyadl yn digwydd unwaith y mis; darparwyd cofnodion ac amserlenni glanhau perthnasol er mwyn dangos tystiolaeth o'r trefniadau hyn. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar y pwnc hwn. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael; mae'n bwysig golchi dwylo'n effeithiol er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau. Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i lywio'r staff ynghylch atal a rheoli heintiau.

Fodd bynnag, cawsom ein hysbysu nad oedd golchi dwylo'n cael ei fonitro ac nad oedd archwiliadau golchi dwylo wedi cael eu cwblhau. Diben yr archwiliad arsylwadol hwn yw helpu lleoliadau i asesu ansawdd y dechneg hylendid dwylo a ddefnyddir gan y staff a gweithio gyda'r staff i wella eu techneg hylendid dwylo. Gwnaethom argymell y dylid cynnal archwiliadau golchi dwylo yn rheolaidd.

Roedd y cyfarpar uwchsain yn cael ei lanhau rhwng cleifion gan ddefnyddio weips arbennig ar gyfer cyfarpar uwchsain. Caiff yr hidlyddion eu gwirio'n wythnosol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Roedd y cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer pigiadau dan arweiniad uwchsain yn cael ei ddihalogi gan ddefnyddio weips techneg aseptig[10]. Roedd y system yn cynnwys tair weip a oedd, yn eu tro, yn cyflawni camau'r weithdrefn ddihalogi. Roedd hyn yn golygu bod dyfeisiau'n cael eu dihalogi'n effeithiol ac, felly, yn hybu camau i atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Edrychwyd ar y cofnodion glanhau yn ystod yr arolygiad ac roedd trefn arnynt.

---

[10] Techneg aseptig - fe'i diffinnir fel ffordd o atal neu leihau'r risg o gyflwyno micro-organebau niweidiol i rannau allweddol o'r corff neu leoliadau allweddol yn y corff wrth roi triniaeth glinigol.

Gwelsom fod offer miniog (fel nodwyddau) wedi'u rhoi mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel. Roedd hyn yn helpu i leihau'r risg o anafiadau (staff a chleifion) a chroes-heintio gan offer miniog sydd wedi cael eu defnyddio. Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog meddygol, wedi'i osod mewn bagiau/cynwysyddion â chod lliw a'i storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu gan gontractwr gwastraff a oedd yn cael gwared arno'n ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r clinig sicrhau bod archwiliadau golchi dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hysbysu o ganlyniadau'r archwiliadau hyn.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn ystafell ar gau mewn blwch dan glo â chlo cyfunrhif. Dim ond dau aelod o staff yr oedd angen iddynt gael gafael ar y feddyginiaeth hon oedd yn gwybod y rhif. Roedd gan y clinig bolisi rheoli meddyginiaethau a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar reoli meddyginiaethau. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwirio cyfarpar a chyffuriau brys. Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu cadw yn y clinig.

Byddai unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol o ran rheoli meddyginiaethau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd rheoli rheolaidd. Byddai adweithiau andwyol i gyffuriau yn cael eu cofnodi drwy'r system Cerdyn Melyn[11]. Cadwyd cofnodion o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion yn y cofnodion meddygol gan gynnwys rhifau swp. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi ynghylch unrhyw alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u llesiant cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/rhoi fel rhan o'r gofal a'r driniaeth a gânt.

---

11 http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur/RhaglenniaGwasanaethauCenedlaethol/372

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y staff clinigol a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol i'w swyddi. Roedd y staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chodi materion diogelu.

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Edrychwyd ar y contractau gwasanaeth ar gyfer y cyfarpar perthnasol a ddefnyddir, fel y peiriannau sganio uwchsain a'r cyfarpar pelydr-x yn y clinig. Roedd y ddogfennaeth yn dangos bod y dyfeisiau wedi cael eu gwasanaethu gan y gwneuthurwr ac wedi bod yn destun profion diogelwch yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y peiriannau sganio yn rhoi darlleniadau cywir i'r defnyddiwr.

Roedd offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf ar gael ac roeddent yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Ymhellach, roedd y staff wedi cael hyfforddiant diweddar ym maes dadebru.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Er bod cleifion yn gallu cyfeirio eu hunain i gael gofal ceiropracteg, mae'n rhaid iddynt gael eu hatgyfeirio gan ddarparwr gofal iechyd cymwys i gael unrhyw driniaeth delweddu diagnostig, pigiadau dan arweiniad neu therapi siocdon. Unwaith y bydd y tîm gweinyddol wedi derbyn ffurflen atgyfeirio a gwblhawyd yn briodol ar gyfer unrhyw driniaeth delweddu diagnostig, pigiadau dan arweiniad neu therapi siocdon, caiff apwyntiad ei drefnu. Fel arfer, trefnir slotiau 30 munud ar gyfer cleifion, sy'n rhoi digon o amser i roi'r driniaeth a'r gofal iddynt. Os trefnir bod myfyriwr yn bresennol yn ystod y driniaeth honno, neilltuir cyfnod o awr. Nododd y staff eu bod yn cael amser i drafod materion gyda'r cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r canllawiau clinigol sy'n gysylltiedig â'u maes ymarfer er mwyn sicrhau bod gofal diogel a chlinigol effeithiol yn cael ei roi.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Mae'r clinig yn gyfleuster hyfforddiant ceiropracteg o fewn Prifysgol De Cymru. Cynigir gofal ceiropracteg i gleifion gan glinigwyr dan hyfforddiant sydd yn eu blwyddyn olaf, o dan oruchwyliaeth ceiropractyddion cymwysedig sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni ymarfer dan oruchwyliaeth yn y gampfa adsefydlu.

Mae'r canllaw i gleifion hefyd yn hysbysu cleifion y gall y radiograffydd, gyda'u caniatâd, gael cwmni myfyrwyr ceiropracteg blwyddyn olaf a all helpu'r radiograffydd gyda'i waith fel rhan o'u hyfforddiant. Hefyd, ar gyfer y gwasanaethau cofrestredig, gall y clinigydd gael cwmni myfyriwr ôl-raddedig hefyd, gan fod y clinig hefyd yn darparu hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig.

### Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Caiff cofnodion cleifion eu harchifo unwaith y bydd y claf wedi cwblhau ei driniaeth, a'u storio'n gyfrinachol am o leiaf wyth mlynedd o ddyddiad yr ymweliad olaf. Caiff cofnodion gweithredol a rhai a archifwyd eu storio'n ddiogel a dim ond personél awdurdodedig all gael gafael arnynt er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.

Mae delweddau a gymerir yn y clinig yn parhau i fod yn rhan o gofnod y claf. Ar gyfer cleifion a atgyfeirir yn allanol, byddai'r delweddau yn parhau i fod yn rhan o gofnod y claf a ddelir gan yr atgyfeiriwr.

### Rheoli cofnodion

Mae cofnodion da yn bwysig er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal cywir. Roedd y sampl o gofnodion a archwiliwyd gennym yn gynhwysfawr. Roedd y cofnodion yn dangos yn glir sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ac roedd yr holl gofnodion yn gyfredol, wedi'u cwblhau'n gywir ac yn gyfoes. Roedd y nodiadau yn glir, yn fanwl gywir ac yn hawdd eu dilyn.

Adroddiadau electronig a gafwyd yn bennaf. Roedd unrhyw nodiadau papur a ddefnyddiwyd cyn iddynt gael eu teipio yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo. Roedd ystafelloedd storio yn ddiogel ac yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, ac roedd cyfrifiaduron ac adroddiadau yn cael eu diogelu â chyfrinair. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod y gwasanaeth wedi derbyn cydsyniad dilys.

Ar ddiwedd pob clinig, byddai'r gweithiwr clinigol proffesiynol ar gyfer pigiadau dan arweiniad uwchsain ac uwchsain MSK yn arddweud y canlyniadau i'w trawsgrifio. Unwaith y cânt eu dilysu gan y sonograffydd cofnodi, fe'u trosglwyddir i atgyfeiriwr y claf fel y gall roi'r canlyniadau i'r claf a darparu gofal fel y bo'n briodol. Ar gyfer y gwasanaeth uwchsain amcangyfrif braster y corff, byddai'r sonograffydd yn trafod y canlyniadau â'r claf ac yn rhoi copi iddo fynd adref gydag ef.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel ac roeddent yn teimlo bod yr uwch-reolwyr yn eu cefnogi.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a/neu bryderon.

Rydym wedi argymell y dylid rhoi systemau ar waith er mwyn darparu hyfforddiant ychwanegol i'r staff a sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer staff anghlinigol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd llinellau cyfrifoldeb clir o fewn y clinig, ac i gyfadran ehangach y brifysgol. Roedd nifer o swyddogaethau Adnoddau Dynol, megis cofnodion personél a hyfforddiant, yn cael eu cadw ar y prif gampws, o fewn 500 metr i'r clinig, ac roeddent ar gael i'r clinig ar fyr rybudd.

Fel y nodwyd uchod, roedd datganiad o ddiben cyfredol a oedd yn cynnwys gofynion Atodlen 1 i Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011[12]. Roedd y canllaw i gleifion hefyd wedi cael ei gwblhau yn unol â'r rheoliadau uchod ac roedd yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, telerau ac amodau'r gwasanaethau a oedd ar gael i gleifion a'r weithdrefn gwyno.

---

[12] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/734/made/welsh

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu rolau. Roedd y rheolwr cofrestredig, a oedd yn ymgymryd â rôl yr unigolyn cyfrifol hefyd, yn gweithio yn y clinig ac wrth law i gefnogi'r staff a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd yn atebol i ddirprwy bennaeth yr ysgol yn y brifysgol, ac yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Ysgol. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd. Cymerwyd cofnodion yng nghyfarfodydd y gwasanaethau clinigol ond roedd cyfarfodydd y tîm gweinyddol yn llai ffurfiol ac ni chymerwyd unrhyw gofnodion.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd manylion am y ffordd y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben, ar y wefan ac ar ffurf taflen. Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael hefyd. Roedd y rhain yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn glir. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y polisi cwynion wedi'i arddangos yn glir yn y clinig, er mwyn sicrhau bod pob claf yn ymwybodol o'r polisi. Er nad oedd unrhyw gwynion y gellid bwrw golwg drostynt mewn perthynas â'r gwasanaethau cofrestredig, fel y disgrifir uchod, roedd y polisi yn ddigonol i sicrhau y byddai unrhyw gwynion yn cael eu trin yn briodol pe baent yn cael eu gwneud.

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn y clinig ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ofynion adrodd a sut i ddelio â digwyddiadau. Roedd Polisi Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau, gan gynnwys templedi, Gweithdrefnau Brys (gan gynnwys Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau) a Pholisi Anafiadau Nodwydd.

### Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu rolau a sut roeddent yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y clinig. Roedd gwiriadau addas wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'u cofrestriad â phriod gyrff proffesiynol yr holl staff.

Gallai'r clinig drefnu ei lefelau staffio a'r rota i fodloni gofynion ymlaen llaw, am ei fod yn ymwybodol o'r triniaethau a'r ymgynghoriadau. Gwelwyd bod digon o staff ar ddyletswydd ar ddiwrnod ein harolygiad.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cofnodion staff yn cael eu cadw mewn man canolog ar y prif gampws ac roedd y clinig yn gallu cael gafael ar wybodaeth

am faterion personél yn ôl yr angen. Nodwyd hyn yn ystod yr arolygiad pan ofynnwyd am samplau o gofnodion.

Mae rheolwr y clinig yn cadw cofnod o adegau pan fo angen unrhyw hyfforddiant, arfarniadau neu wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar aelodau o staff. Gwnaethom edrych ar y matrics hyfforddiant a nodwyd nad oedd angen i staff anghlinigol gwblhau hyfforddiant sy'n ymwneud â diogelu, rheoli heintiau a chodi a chario. Hefyd, dim ond wardeiniaid tân enwebedig oedd wedi cwblhau hyfforddiant tân. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol, argymhellwn y dylai'r clinig roi rhaglen hyfforddiant ar waith ar gyfer staff anghlinigol yn y meysydd allweddol hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r clinig gyflwyno rhaglen hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y clinig, sy'n cynnwys diogelu, rheoli heintiau, codi a chario a hyfforddiant tân.

## Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â gofynion Prifysgol De Cymru, a oedd yn cynnwys gofynion rheoliadau a safonau, ac eithrio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae polisi perthnasol y Brifysgol yn nodi mai dim ond staff y caiff eu gwaith ei ystyried yn weithgarwch a reoleiddir o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006[13] fydd yn destun gwiriad perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn asesu eu haddasrwydd i ymgymryd â'r gwaith hwnnw. O ganlyniad, nid yw staff anghlinigol wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cafodd y clinig ei hysbysu bod Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff sy'n gweithio i wasanaeth cofrestredig gael o leiaf wiriad safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

---

[13] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/47/contents

Ar wahân i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dangosodd y cofnodion staff y gwnaethom edrych arnynt fod y Brifysgol wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd. Roedd gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cofnodi ar gyfer staff clinigol. Cytunodd y clinig i sicrhau bod y gwiriadau perthnasol yn cael eu cwblhau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r clinig sicrhau bod gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y clinig.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Sefydliad Ceiropracteg Cymru

## Dyddiad arolygu: 29 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r clinig sicrhau bod hebryngwyr yn cael eu cynnig bob amser, ar gyfer pob gwasanaeth cofrestredig, ar ddechrau pob sesiwn lle rhoddir triniaeth, a bod hynny'n cael ei gofnodi yn y cofnodion meddygol. | 10. Urddas a pharch | Mae pob aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau cofrestredig wedi cael cyfarwyddyd i ofyn i bob claf sy'n defnyddio gwasanaeth a fyddai'n hoffi cael hebryngwr ar ddechrau'r apwyntiad ac i gofnodi hyn yng nghofnodion meddygol y claf. | Yr Athro David Byfield | Gweithredwyd 4 Tachwedd 2019 |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r clinig sicrhau bod archwiliadau | 13. Atal a | Mae'r Sefydliad wrthi'n chwilio am | Yr Athro David | Ionawr – Chwefror 2020 ar |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| golchi dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hysbysu o ganlyniadau'r archwiliadau hyn. | rheoli heintiau a dihalogi | hyfforddiant golchi dwylo a deunyddiau archwilio at y diben hwn. | Byfield | gyfer yr hyfforddiant, a chaiff yr archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd bob chwarter yn dilyn yr hyfforddiant, gan ddechrau ym mis Ebrill 2020 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae'n ofynnol i'r clinig gyflwyno rhaglen hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y clinig, sy'n cynnwys diogelu, rheoli heintiau, codi a chario a hyfforddiant tân. | 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol | Mae'r Sefydliad wedi cysylltu â Swyddog Iechyd a Diogelwch Prifysgol De Cymru ynghylch hyfforddiant codi a chario a hyfforddiant tân, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr ynghylch hyfforddiant diogelu. Caiff hyfforddiant rheoli heintiau ei gynnwys yn y deunyddiau hyfforddi golchi dwylo neu ei ddarparu gan ein Hysgol Gwyddorau Gofal sy'n hyfforddi nyrsys ar faterion cyflogaeth a hylendid mewn ysbytai. | Yr Athro David Byfield | Bydd yr hyfforddiant codi a chario a'r hyfforddiant diogelwch tân ar gael ar-lein a bydd pob aelod gofynnol o'r staff yn eu cwblhau ym mis Ionawr 2020. Bydd yr hyfforddiant rheoli heintiau yn dechrau ym mis Ionawr / Chwefror yn dibynnu ar argaeledd y deunyddiau addas y gallwn eu cyrchu a'u prynu. Mae Prifysgol De Cymru yn chwilio am ddarparwr diogelu allanol ar hyn o bryd a deallwn y bydd y darparwr hwn ar waith yn gynnar yn 2020. Byddwn yn |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hysbysu AGIC pan fydd yr hyfforddiant hwn ar gael ar-lein a phan fydd y staff wedi'i gwblhau. |
| Dylai'r clinig sicrhau bod gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio yn y clinig. | 24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu | Roedd un aelod o'r staff gweinyddol wedi cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn iddo gael ei gyflogi a bydd angen iddo gwblhau proses adnewyddu ym mis Ionawr 2020. Mae pob aelod arall o'r staff gweinyddol, gan gynnwys Rheolwr y Clinig, wedi cwblhau gwiriadau safonol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rhan fwyaf o'r tystysgrifau a ddychwelwyd wedi'u cofrestru'n glir. Rydym yn aros am ganlyniad y gwiriad ar gyfer Rheolwr y Clinig, gan iddi fod i ffwrdd o'r gwaith yn sâl tan yn ddiweddar. | Yr Athro David Byfield | 1 Ionawr 2020 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| **Enw (priflythrennau):** | **Yr Athro David Byfield** |
| **Teitl swydd:** | **Pennaeth Gwasanaethau Clinigol, Prifysgol De Cymru** |
| **Dyddiad:** | **10 Rhagfyr 2019** |